
# MODIWL 1A RHAN B: TAFLEN FFEITHIAU MYFYRWYR

# LLEOLIAD Y DIWYDIANT CIG EIDION

## CYFLWYNIAD

Mewn gwledydd lle mae tiroedd addas i gynhyrchu cig eidion yn brin oherwydd amgylchiadau hinsawdd neu economaidd e.e. lle mae mentrau eraill fel cynhyrchu llaeth yn fwy proffidiol, mae'r systemau cig eidion yn llawer mwy dwys eu natur. Dyma'r sefyllfa yn yr Undeb Ewropeaidd. Lle nad oes pwysau ar ddefnydd tir, mae'r systemau'n llai dwys e.e. Brasil. Yn aml iawn, mewn gwledydd â'r arwyneb mwyaf, mae'r systemau dwys a llai dwys yn cydfodoli.




**FFIGUR 1: DOSBARTHIAD SYSTEMAU CYNHYRCHU CIG EIDION**

## UNOL DALEITHIAU AMERICA

Mae lloi yn cael eu cynhyrchu ar gyfer y diwydiant cig eidion ar laswelltiroedd helaeth Missouri, De Dakota, Gogledd Dakota, Nebraska, Kansas, Kentucky, Montana, Tennessee, ac Oklahoma. Systemau gwartheg a lloi ar ffermydd mawr, helaeth yw'r rhain yn bennaf. Yn Texas, Colorado, Nebraska, Kansas, Iowa, California ac Oklahoma, mae ffermydd bwydo (porthiant) lle mae lloi yn cael eu pesgi ar gyfer anghenion y farchnad, gyda dwysfwydydd a chynhyrchion gwastraff o'r diwydiant bwyd.



**[Llun: Gwartheg ar y paith]**



**[Llun: Ffermydd bwydo (porthiant)]**

BRASIL

Nod systemau'r wlad yw cynhyrchu cig eidion rhad drwy ddefnyddio glaswelltiroedd naturiol helaeth, ond hefyd tiroedd wedi'u datgoedwigo. Codwyd pryderon amgylcheddol am y mater hwn yn gyson gan wledydd eraill ac ymgyrchwyr.




TSIEINA

Prif ffynonellau cynhyrchu cig eidion yw'r ffermydd teuluol bach sy'n defnyddio bwyd anifeiliaid a chnydau o ansawdd gwael i besgi'r bridiau brodorol. Gan fod y bridiau brodorol hyn yn cael eu defnyddio'n wreiddiol ar gyfer cludo, mae ansawdd y cig yn wael. Ers i'r Llywodraeth ddechrau ymestyn y diwydiant, cafodd bridiau Ewropeaidd cyfandirol eu mewnforio, a dewiswyd bridiau brodorol mwy addas. Felly, sefydlwyd rhai ffermydd bwydo i besgi'r gwartheg. Mae'r rhain yn cael eu pesgi mewn llociau, gan ddefnyddio bwyd anifeiliaid a dwysfwydydd o ansawdd uwch.

YR UNDEB EWROPEAIDD

Cynhyrchir cig eidion Ewropeaidd mewn ffermydd mewn dau gategori:

- ffermydd cig eidion arbenigol gyda gwartheg sugno neu wartheg buchaidd ifanc;
- ffermydd llaeth lle mae cynhyrchu cig eidion yn sgil-gynnyrch cynhyrchu llaeth.

Mae'r DU sydd â'i systemau bugeiliol yn bennaf wedi tynnu'n ôl

AWSTRALIA

Ffermio cig eidion llai dwys yng ngogledd a chanolbarth Awstralia, gan ddefnyddio cig eidion o Brydain yn ogystal â rhai bridiau o wledydd trofannol. Mae mwy o ffermydd bwydo yn Queensland nag yn y rhanbarthau eraill.



Ffynhonnell y ddelwedd:

https://www.northqueenslandregister.com.au/story/6436206/biddeston-feedlot-on-the-market/

YR ARIANNIN

Cynhyrchu cig eidion ar laswelltiroedd helaeth y Pampas gan ddefnyddio bridiau Prydeinig, Cyfandirol Ewropeaidd a Throfannol ar systemau gwartheg a lloi a phesgi ar laswelltiroedd.



Mae'r llun uchod yn dangos y gwartheg gwreiddiol neu Gauchos yn bugeilio eu gwartheg. Erbyn hyn mae unedau mwy yn bygwth y ffordd hon o fyw.

**CANADA**

Systemau tebyg i'r Unol Daleithiau.

Gwyliwch y fideo ar You Tube i weld sut mae gwartheg yn derbyn gofal ar un Fferm yng Nghanada

https://www.youtube.com/watch?v=uKY84wJIJ3g&t=17s